



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Diweddariad

Hydref 2017

Y Diweddaraŷ ynghylch Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru

Cyflwyniad

Ar 31 Ionawr 2017, amlinellwyd ein dull gweithredu ar gyfer diwygio system gyllido llywodraeth leol yng Nghymru, sef gwneud y gwaith fesul cam, mewn modd sy'n cael ei reoli, er mwyn datblygu system sy'n diwallu anghenion y dyfodol.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraŷ. Byddwn yn ymgynghori ar gynigion wrth iddynt gael eu datblygu, ond rydym yn croesawu pob sylw a chyfraniad at y drafodaeth hon ar unrhyw gam.

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer diwygio'r system gyllid yn cynnwys mwy o gadernid i awdurdodau lleol, tegwch i ddinasyddion a busnesau, a chyllid cynaliadwy i wasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r amserlen ar gyfer newidiadau i'r system, er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion a nodir yn ein Strategaeth Genedlaethol, *Ffyniant i Bawb*.

Cefndir - a oes angen i'r fframwaith cyllid newid?

1. Mae *Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol* yn amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y tymor hwn a thu hwnt. Dim ond gyda chyfraniad cyrff cyhoeddus y bydd modd cyflawni nifer o'r blaenoriaethau hyn. Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi swyddogaethau i awdurdodau lleol gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol ar lefel leol, ac mae gan awdurdodau y rhyddid i bennu blaenoriaethau lleol ar gyfer y gwasanaethau y maent yn credu y byddant yn dod â manteision i gymunedau. Mae'r heriau ariannol a demograffig parhaus sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn golygu bod angen i gyrff cyhoeddus gynllunio a darparu gwasanaethau mewn ffordd sy'n fwy strategol ac effeithiol. Fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i'r heriau hynny, mae pwyslais ar gydweithio rhanbarthol rhwng sefydliadau i feithrin cadernid. Mae angen i ni sicrhau bod fframwaith cyllid llywodraeth leol yn gallu cefnogi'r nod hwn.
2. Mae corff sylweddol o ymchwil yn bodoli i sut y dylai gwasanaethau lleol gael eu hariannu yng Nghymru, yng ngweddill y DU ac yn rhyngwladol. Mae llawer o'r ymchwil hon yn sôn am gael cyfaddawd rhwng canlyniadau megis ymreolaeth leol, twf economaidd a chydaddoldeb cymdeithasol, heb unrhyw safbwynt cyffredin am beth sydd orau i anghenion ac amgylchiadau Cymru. Bu

Comisiwn Annibynnol Materion Ariannol Llywodraeth Leol Cymru¹, a sefydlwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn ystyried y diwygiadau posibl, gydag amcanion yn cynnwys mwy o hunangynhaliaeth ac arloesi, ond hefyd sefydlogrwydd. Roedd ei argymhellion (mis Mawrth 2016) yn cynnwys cadw refeniw ardrethi annomestig yn lleol, adolygu fformiwla'r setliad, dadneilltuo grantiau ac ailbrizio'r dreth gyngor.

3. Ym mis Rhagfyr 2015, bu Comisiwn yr Alban ar Ddiwygio Trethi Lleol² yn ystyried gwneud newidiadau sylfaenol i'r ffordd y caiff trethi lleol eu cynllunio a'u gweithredu, fel elfennau pwysig o'r cyllid sydd ar gael i wasanaethau lleol. Galwodd y Comisiwn am roi'r gorau i system bresennol y dreth gyngor yn yr Alban, ond ni chynigiwyd opsiwn arall, gan felly ddod i'r casgliad nad oes un dreth leol ddelfrydol a all sicrhau tegwch, ymreolaeth, effeithlonrwydd ac sy'n ymarferol. Daeth i'r casgliad y dylai trethi lleol barhau i fod yn gyfraniadau cyffredinol a wneir gan bobl i ariannu gwasanaethau lleol yn gyffredinol, yn hytrach na bod yn dâl am ddefnyddio'r gwasanaethau hynny.
4. Mae angen i Lywodraeth Cymru gysoni'r safbwyntiau gwahanol niferus sydd gan randdeiliaid, a'u cyflwyno mewn pecyn o ddiwygiadau sy'n rhoi dinasyddion yn gyntaf. Mae angen hefyd i ni sicrhau cydbwysedd rhwng y dyheadau ar y naill law a'r costau a'r risgiau sydd ynghlwm wrth wneud newidiadau ar y llaw arall, gan sicrhau nad ydym yn anwybyddu cryfderau'r trefniadau cyllid presennol.
5. Mae'r trefniadau presennol yn darparu fframwaith gwerth biliynau o bunnoedd sy'n sail i bob math o lywodraeth leol – cymysgedd gymhleth o gynghorau sir, gwasanaeth yr heddlu, Awdurdodau Tân ac Achub, Cynghorau Tref a Chymuned, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chyrff llai. Mae'r cyrff hyn yn annibynnol a chaiff eu haelodau eu hethol yn ddemocrataidd. Mae'r trefniadau cyllido yn adlewyrchu hyn, mewn system ryng-gysylltiedig o grantiau llywodraeth ganolog, refeniw a godir yn lleol gan gynnwys trethi lleol, cyllid cyfalaf, benthyca a buddsoddi. Caiff newidiadau i un elfen effaith uniongyrchol mewn man arall. Mae angen sicrhau bod y pecyn o ddiwygiadau yn gyfannol a bod atebolrwydd am wasanaethau yn parhau'n glir.


¹ 'Uchelgais ar gyfer Newid – Anelu'n Uwch', a gyhoeddwyd ar 24 Mawrth 2016.

<http://www.cipfa.org/partners/independent-commission-on-local-government-finance-wales/final-report>

² 'Just Change: A New Approach to Local Taxation', a gyhoeddwyd fis Rhagfyr 2015.

<http://localtaxcommission.scot/download-our-final-report/>

Ffigur 1: trefniadau cyllid llywodraeth leol



Ffynhonnell: gwariant a chyllido llywodraeth leol, StatsCymru

6. Mae ein dogfen ar Bolisi Trethi (a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft ar 3 Hydref) yn amlinellu ein taith tuag at ddatganoli cyllidol pellach. Ar hyn o bryd, mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i refeniw o drethi lleol gael ei ddefnyddio i ariannu gwasanaethau lleol. Mae hyn yn creu cyfleoedd i ystyried sut y gall trethi lleol eistedd ochr yn ochr â threthi datganoledig newydd a threthi'r DU, y bydd pobl, sefydliadau a busnesau yn parhau i'w talu. Pan fyddwn yn gwneud newidiadau i'r polisi trethi lleol, byddwn yn eu gwneud yn unol â'n hegwyddorion treth, hy y dylai trethi Cymreig:
- godi refeniw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl;
 - cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru, yn enwedig cefnogi twf a swyddi;
 - bod yn glir, yn sefydlog ac yn syml;
 - cael eu datblygu trwy gydweithredu ac ymwneud;
 - cyfrannu'n uniongyrchol at nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru fwy cyfartal.

7. Ar 31 Ionawr 2017, amlinellwyd ein dull gweithredu ar gyfer diwygio'r ffordd y mae llywodraeth leol yn gweithredu³. Ynghyd â'r Papur Gwyn, fe wnaethom amlinellu ein dull gweithredu ar gyfer diwygio cyllid llywodraeth leol. Gallwn gyflawni rhai o'r diwygiadau gofynnol yn y tymor byr. Yn wir, rydym eisoes wedi cyflawni rhai o'n diwygiadau arfaethedig. Mae newidiadau eraill yn cael eu hystyried dros y tymor hwy. Mae ffigur 2 yn amlinellu ein hamcanion ar gyfer cyllid llywodraeth leol yn y dyfodol, ynghyd â chrynodeb byr ac amserlen ar gyfer y newidiadau. Mae gweddill y ddogfen hon yn rhoi rhagor o fanylion am bob un o'r meysydd hyn sydd i'w hystyried, wedi'u trefnu yn ôl amserlenni tymor byr, tymor canolig a thymor hir.

³ Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac adnewyddiad', a gyhoeddwyd ar 31 Ionawr 2017. <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/diwygio-llywodraeth-leol-cadernid-ac-adnewyddiad>

Ffigur 2 – Amcanion ar gyfer cyllid llywodraeth leol ac amserlen ddangosol

Llywodraeth leol gynaliadwy a hunangynhaliol

- cymorth ariannol ar gyfer meincnodi perfformiad a chost (cyflawnwyd)
- cymorth ar gyfer bargeinion dinesig a thwf (yn parhau)
- darparu hyblygrwydd newydd o ran cyllido cyfalaf (cyflawnwyd yn rhannol a newidiadau pellach o fis Ebrill 2018)
- datblygu fframwaith ariannu rhanbarthol i alluogi diwygio a thrawsnewid gwasanaethau (drwy'r Bil Llywodraeth Leol)
- datblygu fformiwla'r setliad mewn ymateb i newidiadau i batrymau gwario (blynyddol) a newidiadau i drethi lleol (o 2019)
- galluogi mwy o fasnacheiddiwch, Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (drwy'r Bil Llywodraeth Leol)
- **edrych ar** newidiadau i ardrethi annomestig mewn perthynas â gweithgarwch ranbarthol (o 2017)
- **edrych ar** y cydbwysedd rhwng cyllid a godir yn lleol a chyllid a ddarperir yn ganolog, rhwng cyllid refeniw a chyllid cyfalaf (o 2018)

Trethi lleol sy'n deg, yn flaengar ac wedi'u targedu'n well

- cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes newydd sy'n cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru (newidiadau cychwynnol Ebrill 2018 a datblygiadau parhaus)
- Rhyddhad ardrethi wedi'i dargedu sy'n cydfynd â'r ymrwymadau yn *Symud Cymru Ymlaen*
- treth gyngor sy'n fwy graddoledig (o 2019)
- Cynllun gwell ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, gan ystyried diwygiadau llesiant y DU (o 2019)
- **edrych ar** ddatblygiadau pellach i'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach (o 2017)
- **edrych ar** brisio eiddo mewn modd mwy modern ac yn amlach (o 2017)
- **edrych ar** y gwahanol ddulliau o ymdrin â threthi lleol, ee newidiadau sylfaenol i fandiau'r dreth gyngor, trethi gwerth tir, trethi incwm lleol (o 2018)

Gweinyddu trethi mewn modd effeithiol a chymesur

- ailbrisio a phontio ardrethi annomestig 2017 (cyflawnwyd)
- rhannu gwybodaeth yn well rhwng asiantaethau (cyflawnwyd yn rhannol ac yn parhau)
- diwygio apeliadau ar ardrethi annomestig (o 2019)
- mynd i'r afael ag achosion o osgoi ardrethi annomestig (o 2019)
- gwella'r gwaith o reoli a gorfodi ôl-ddyledion y dreth gyngor (o 2017)

Llywodraethu ariannol cadarn ac atebolrwydd lleol cryfach

- cynllunio ariannol rhanbarthol gan Gyd-bwyllgorau Llywodraethu
- cefnogi rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn amgylchedd sy'n newid (parhaus)
- cynnwys dinasyddion mewn penderfyniadau am flaenoriaethau gwario (parhaus)
- datblygu fframwaith cyfrifyddu ac archwilio (o 2019)
- gwelliannau parhaus i'r drefn lywodraethu ariannol o ganlyniad i newidiadau eraill a ddisgrifir

Gweithio gyda phartneriaid

8. Mae gwahanol randdeiliaid eisiau gwahanol bethau o'r system gyllido llywodraeth leol, ac weithiau mae eu buddiannau yn cyd-daro â'i gilydd. Mae angen i Lywodraeth Cymru geisio taro'r cydbwysedd cywir rhwng gwneud darpariaeth gynaliadwy ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus y mae pob un ohonom yn ddibynnol arnynt, gan sicrhau bod y system yn gallu gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol a bod cyfraniadau gan drethdalwyr lleol yn cael eu lledaenu'n deg.
9. Mae'r diwygiadau a amlinellir yma yn gofyn am gyfraniad gan ystod eang o bartïon sydd â diddordeb. Mae Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru yn darparu'r prif fforwm i alluogi aelodau llywodraeth leol a phartneriaid y sector cyhoeddus i gynnal trafodaeth ehangach am gyfeiriad y system gyllido. Ceir hefyd nifer o gyfleoedd ar gyfer gwaith technegol, gan gynnwys Grŵp Refeniw a Budd-daliadau Cymru, yr Is-grŵp Dosbarthu a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddiwygio. Mae'r rhain yn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol allweddol o'r 22 prif awdurdod a llywodraeth leol yn ehangach drafod cynigion yn ymwneud â'r system ariannol, yn enwedig eu rôl o ran sicrhau y gwneir defnydd effeithiol o arian cyhoeddus.
10. Rydym wedi sefydlu Gweithgor ar Ddiwygio Cyllid Llywodraeth Leol dan arweiniad arbenigwyr, i archwilio a phrofi'r posibilïadau ar gyfer diwygio mewn ffordd gymhwysol ac ymarferol. Mae'r grŵp yn gweithio i helpu i edrych ar bolisi yn seiliedig ar dystiolaeth – nid yw cynnig argymhellion neu gyngor ffurfiol i Lywodraeth Cymru yn rhan o'i orchwyl.
11. Rydym am ysgogi proses o ymgysylltu a thrafod gyda dinasyddion fel rhai sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus ac yn cael budd ohonynt. Mae'n bwysig bod pawb yn deall beth mae angen iddynt ei gyfrannu er mwyn cael y mwyaf o'n gwasanaethau cyhoeddus. Byddwn yn sicrhau bod barn dinasyddion yn cael ei chlywed ar bob cam wrth inni ddatblygu system gyllido llywodraeth leol yn y dyfodol.

Diwygiadau tymor byr

12. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau sydd o fewn pwerau presennol Gweinidogion Cymru, ac y gellir eu rhoi ar waith yn (weddol) gyflym.

Treth gyngor sy'n deg ac yn flaengar

13. Mae *Symud Cymru Ymlaen* yn cynnwys ymrwymiad i **weithio gyda llywodraeth leol i adolygu'r dreth gyngor er mwyn ei gwneud yn decach**. Mae Llywodraeth Cymru wedi edrych ar beth y mae tegwch yn ei olygu yn y cyd-destun hwn, wedi datblygu'r sylfaen dystiolaeth ac wedi gwella ein gallu i asesu rhwymedigaeth gwahanol fathau o drethdalwr i dalu'r dreth gyngor. Ein prif nod yw cymryd camau i wella natur 'raddoledig' y system bresennol, gan wneud newidiadau a allai fod o fudd i'r aelwydydd hynny sy'n llai tebygol o allu talu nag eraill. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gofio nad yw'n fwiad i'r dreth gyngor fod yn dreth incwm leol.
14. Mae'r newidiadau sydd mewn golwg ar gyfer y tymor byrrach yn rhai y gellid eu cyflawni o fewn cyfyngiadau cyffredinol y cynlluniau a'r gweithrediadau gweinyddol sy'n bodoli eisoes ar gyfer trethi. Mae'r posibiliadau sy'n cael eu hystyried yn cynnwys newidiadau i berthynoledd trethi a godir rhwng naw band y dreth gyngor, edrych ar ffyrdd o wella Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac ymdrechu o'r newydd i sicrhau bod y rheini sy'n gymwys ar gyfer y cynllun yn elwa arno. Rydym yn adeiladu ac yn gwella'r sylfaen o dystiolaeth er mwyn asesu effaith y cynigion cyn gwneud newidiadau. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar y cynigion cychwynnol i wneud y dreth gyngor yn decach, ddechrau 2018.
15. Mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn flaenoriaeth i'r llywodraeth hon. Mae'n darparu cymorth uniongyrchol i aelwydydd incwm isel ac sy'n agored i niwed ledled Cymru. Rydym eisoes wedi cadarnhau y byddwn yn parhau i warchod yr aelwydydd hyn drwy gynnal hawliadau llawn ar gyfer gostyngiadau'r dreth gyngor ar gyfer 2018-19, er gwaethaf gostyngiad yn y cyllid a basiwyd i Gymru gan Lywodraeth y DU pan gafodd Budd-dal y Dreth Gyngor ei diddymu ganddi yn 2013. Mae'r penderfyniad hwn yn sicrhau y bydd bron 300,000 o aelwydydd yng Nghymru yn parhau i gael cymorth i dalu'r dreth gyngor. O'r rhain, nid yw 220,000 o aelwydydd yn talu unrhyw dreth gyngor o gwbl. Rydym yn datblygu cynigion ar gyfer dyfodol y cynllun i gyflawni ein hymrwymiad i wneud y dreth gyngor yn decach.
16. Mae ein hymrwymiad i sicrhau tegwch hefyd yn cynnwys edrych ar y ffordd y caiff y dreth gyngor ei gweinyddu a'i rheoli. Er ein bod yn credu'n gryf mai trethi yw'r pris mynediad a dalwn er mwyn byw mewn cymdeithas wâr, mae'n rhaid i ni ddiogelu a gwarchod aelwydydd lle y mae'n glir nad oes modd iddynt

gyfrannu. Cyhoeddwyd ymchwil yn ddiweddar i'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn rheoli dyledion y dreth gyngor a beth yn fwy y gellid ei wneud i wella'r dull o gasglu a rheoli ôl-ddyledion. Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd ar 28 Medi⁴ yn dwyn ynghyd dystiolaeth sydd eisoes ar gael ar effaith y dreth gyngor a chasglu ôl-ddyledion ar aelwydydd incwm isel. Rydym yn ystyried canfyddiadau'r adroddiad cyn archwilio pa newidiadau y mae angen eu gwneud i sicrhau bod pob achos yn gyson o ran arferion, yn rhesymol ac yn gymesur. Byddwn yn gweithio'n agos gyda llywodraeth leol i archwilio cyfleoedd i fabwysiadu ffyrdd mwy rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd i helpu i osgoi dyledion rhag digwydd a rhag gwaethygu.

17. Mae'r ffrwd refeniw gwerth £1.7 biliwn yn flynyddol a gynhyrchir drwy'r dreth gyngor yn cyfrannu at y gost o ddarparu gwasanaethau lleol hanfodol i gymunedau yng Nghymru. Ein bwriad yw sicrhau bod y newidiadau i wneud y dreth yn fwy graddoledig yn digwydd fesul tipyn, yn cael eu rheoli ac nad ydynt yn effeithio ar yr arenillion presennol. Nid yw ein hymrwymiad i degwch i drethdalwyr yn golygu dweud wrth lywodraeth leol sut i bennu ei lefelau ar gyfer y dreth gyngor – mae'r fframwaith deddfwriaethol eisoes yn nodi'r broses honno'n fanwl, ac rydym yn credu'n gryf bod yn rhaid i awdurdodau barhau i fod yn atebol i'w hetholwyr lleol am y dewisiadau a wneir ganddynt.

Ailbrisio a phontio ardrethi annomestig

18. Cynhaliwyd ymarfer ailbrisio eiddo yn ddiweddar gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio i sicrhau bod y system yn deg ac yn gyfredol. Mae'r Asiantaeth yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Nid creu refeniw yw diben ailbrisio. Mae gwaith ailbrisio rheolaidd yn angenrheidiol er mwyn ailddosbarthu swm y dreth sy'n daladwy ar draws y sylfaen drethi, gan adlewyrchu'r newidiadau yn amgylchiadau'r farchnad eiddo ers yr ymarfer blaenorol. Ar 1 Ebrill 2017 daeth cyfres o 'werthoedd ardrethol' wedi'u diweddarau i rym ar draws Cymru a Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth pontio wedi'i dargedu a chymorth i fanwerthwyr ar y stryd fawr i gefnogi busnesau drwy'r broses bontio, ac mae'n darparu cyfanswm o £210 miliwn o ryddhad ardrethi.

Cymorth wedi'i dargedu'n well ar gyfer busnesau bach

19. Yn *Symud Cymru Ymlaen*, nodwyd ein bwriad i feithrin yr amodau sydd eu hangen i sicrhau bod busnesau a'n cymunedau'n ffynnu. Roedd hyn yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu toriad treth drwy helpu busnesau bach gyda'u biliau ardrethi annomestig. Cafodd y cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau

⁴ Dulliau awdurdodau lleol o ymdrin ag adennill dyledion y dreth gyngor yng Nghymru <http://gov.wales/statistics-and-research/local-authorities-approaches-council-tax-debt-recovery/?skip=1&lang=cy>

Bach, a oedd yn gynllun dros dro, ei ymestyn yn brydlon ac mae'n darparu £110 miliwn o ryddhad yn 2017-18.

20. Rydym hefyd wedi addo **adolygu Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach gyda'r bwriad o ddatblygu trefniadau parhaol o 2018**. Byddwn yn cyflwyno cynllun a fydd yn targedu ein buddsoddiadau'n well, ac yn rhoi cymorth i'r rheini a fyddai'n elwa fwyaf – busnesau bach sy'n chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau twf economaidd a chynnal cymunedau lleol. Rydym am sicrhau bod rhyddhad rhag ardrethi annomestig yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion ehangach Llywodraeth Cymru, a byddwn yn ystyried a oes achos i'w wneud dros ddarparu rhyddhad ychwanegol i sectorau penodol er mwyn cyflawni hyn. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i ni ddiogelu'r sylfaen drethi a'r refeniw a godir i ariannu gwasanaethau lleol. Bydd y newidiadau ar gyfer 2018 yn rhoi sylfaen barhaol i'r cynllun. Nid yw hyn yn golygu y bydd y cynllun yn aros yr un fath - byddwn yn parhau i'w ddatblygu.
21. Bydd ymgynghoriad ar ein cynigion yn dod i ben cyn hir, ar 13 Hydref⁵. Mae'n amlinellu nifer o ddiwygiadau posibl ar gyfer y tymor byr, gan gynnwys:
- cyfyngu ar faint o ryddhad sydd ar gael i fusnesau sy'n meddiannu sawl eiddo bach, er enghraifft, cadwyni cenedlaethol mawr;
 - eithriadau rhag Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach ar gyfer gweithgarwch nad yw'n cyd-fynd ag amcanion Llywodraeth Cymru;
 - dod â'r rhyddhad cynyddol presennol ar gyfer eiddo manwerthu yn ôl i lefel safonol;
 - ailfuddsoddi'r refeniw sy'n cael ei ryddhau o'r cynigion uchod er mwyn cynnig rhyddhad mwy hael i fusnesau bach drwy ddiwygio'r meini prawf cymhwysedd;
 - targedu sectorau penodol sy'n helpu i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru, er enghraifft, ein hymrwymiad i ddarparu 30 awr o ofal plant am ddim i rieni o oed gweithio sydd â phlant 3-4 oed.
22. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i brofi goblygiadau ymarferol y cynnig yn fanwl, yn arbennig yr ystyriaethau ariannol, gweinyddol a deddfwriaethol. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cyfrannu at y deddfwriaeth fel bod y

⁵Darparu toriad treth i fusnesau bach: Cynllun rhyddhad ardrethi newydd i fusnesau bach yng Nghymru. Cyhoeddwyd 21 Gorffennaf 2017. <https://consultations.gov.wales/consultations/delivering-tax-cut-small-businesses-new-small-business-rates-relief-scheme-wales>

rheini sy'n talu ardrethi ac awdurdodau lleol yn ymwybodol o fanylion y cynllun newydd cyn iddo gael ei roi ar waith o 1 Ebrill 2018.

23. Yn dilyn y newidiadau cychwynnol yn 2018, bydd y cynllun yn parhau i gael ei ddatblygu. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cynnwys nifer o ddiwygiadau posibl sy'n gofyn am fwy o amser i ymchwilio iddynt. Caiff y rhain eu hamlinellu ym mharagraff 40.

Gweinyddu trethi mewn modd effeithiol a chymesur

24. Mae'r gwaith o weinyddu trethi lleol yn gymhleth, ond mae'n angenrheidiol er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu mewn modd effeithiol, effeithlon a theg. Mae'r gwaith yn cynnwys amrywiaeth o swyddogaethau sy'n cwmpasu nifer o sefydliadau, o gasglu trethi drwy filio awdurdodau, i driwlynlysoedd sy'n darparu system ar gyfer herio a thalu iawndaliadau, i gynnal asesiadau annibynnol o werthoedd eiddo gan Asiantaeth y Swyddfa Brisiol. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yn gyson yr ystod o weithdrefnau sy'n rhan o'r gwaith o weinyddu trethi.

Apeliadau ar gyfer ardrethi annomestig

25. Rydym eisoes wedi dechrau ar y broses o ddiwygio'r broses apelio yng Nghymru gan newid sut y mae'r triwlynlys Prisiol yn gweithredu yng Nghymru. Byddwn, maes o law, yn ceisio barn am newidiadau i'r system apeliadau a allai wella pa mor effeithlon ydyw, a sicrhau ei bod yn haws ei deall i'r rheini sy'n talu ardrethi. Ar hyn o bryd, mae dros 40% o'r rheini sy'n talu ardrethi yn apelio yn erbyn prisiad eu heiddo, ond nid yw dwy ran o dair o'r achosion hyn sy'n cael eu herio yn arwain at unrhyw newid o gwbl i'r gwerthoedd ardrethol. Mae cyfran sylweddol o'r apeliadau yn rhai damcaniaethol, sy'n golygu bod datrys heriau yn broses hir a chostus sy'n gofyn am adnoddau sylweddol gan nifer o sefydliadau, ac sy'n rhwystredig i'r rheini sydd ag apeliadau dilys.

Rhannu gwybodaeth

26. Sefydlwyd porth newydd ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau lleol ac Asiantaeth y Swyddfa Brisiol ym mis Ebrill 2017, gyda'r nod o leihau'r baich gweinyddol i drethdalwyr wrth iddynt orfod darparu gwybodaeth debyg i wahanol sefydliadau. Bydd y porth hefyd yn helpu wrth gasglu ardrethi ac ymchwilio i dwyll.

Effaith newidiadau eraill i'r polisi trethi lleol

27. Bydd goblygiadau gweinyddol yn arwain o'r diwygiadau tymor byr hyn i'r dreth gyngor a gostyngiadau yn y dreth gyngor. Rhaid i ni sicrhau nad yw'r newidiadau rydym yn bwriadu eu gwneud yn peryglu effeithiolrwydd treth sydd wedi cael ei chasglu'n llwyddiannus am ddau ddegawd. Byddwn yn edrych ar yr ystyriaethau hyn mewn ymgynghoriad a thrwy weithio gyda'n rhanddeiliad.

28. Mae gweithdrefn weinyddol ardrethi annomestig wedi bod yn ystyriaeth bwysig drwy gydol y gwaith o ddatblygu ein cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach. Yn ein hymgyngoriad, rydym yn trafod rhinweddau cynlluniau sy'n golygu cyflwyno ceisiadau a chynlluniau sy'n golygu bod y swm yn cael ei gynnwys yn awtomatig mewn biliau ardrethi. Wrth ddatblygu cynllun newydd, byddwn yn ceisio lleihau'r baich gweinyddol ar y rheini sy'n talu ardrethi ac awdurdodau, gan gyfyngu cymaint â phosibl ar unrhyw gyfleoedd i gamddefnyddio'r cynllun.

Cyllid craidd a hyblygrwydd ar gyfer llywodraeth leol

29. Mae'r fframwaith gwerth biliynau o bunnoedd sy'n sail i ddarparu gwasanaethau lleol yn system ryng-gysylltiedig o wahanol elfennau. Mae trethi lleol yn cyfrannu tua thraean o'r cyllid ar gyfer gwariant refeniw lleol, ac ni ellir eu gwahanu oddi wrth ein strategaeth gyffredinol ar gyfer y cyllid craidd a ddarparwn. Mae newidiadau i'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig yn cael effaith uniongyrchol ar y fformiwla cyllido ar gyfer y setliadau blynyddol ar gyfer awdurdodau lleol a'r heddlu. Bydd rhoi mwy o bwyslais ar weithio rhanbarthol yn newid patrymau gwario mewn awdurdodau ac yn golygu y bydd angen meddwl am y dull ar gyfer dosbarthu un o'n grantiau mwyaf, sef y Grant Cynnal Refeniw.
30. Mae'r fformiwla wedi tyfu i fod yn fwy cymhleth ers iddo ddechrau ac mae gwerth edrych ar y posibilrwydd o'i symleiddio a gwneud newidiadau er mwyn hybu tryloywder a helpu wrth ei weithredu. Mae'r Is-grŵp Dosbarthu, sef un o is-grwpiau technegol Cyngor Partneriaeth Cymru, yn datblygu'r system gyllido ar gyfer setliadau blynyddol llywodraeth leol. Bydd y grŵp yn ystyried goblygiadau'r gwaith a ddisgrifir yn y bennod hon ar gyfer y system.
31. Rydym wedi rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddefnyddio derbyniadau cyfalaf i ariannu buddsoddiad mewn gweithgareddau trawsnewidiol. Byddwn hefyd yn ymgynghori yn ddiweddarach eleni ynghylch newidiadau i'r cyllid cyfalaf a'r drefn gyfrifyddu, gan lacio'r cyfyngiadau ar drafodion cyfalaf benthyg, bondiau a buddsoddiadau. Mae penderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf yn arwain at ganlyniadau o ran refeniw, sy'n arwain at oblygiadau ar gyfer elfennau cysylltiedig, gan gynnwys faint o gyllid refeniw sydd i'w godi o drethi lleol.
32. Rydym wedi darparu cymorth ariannol ar gyfer prosiectau Arloesi i Arbed a Buddsoddi i Arbed, ac wedi cefnogi datblygiad meincnodi fel dull o gymharu perfformiad gwasanaethau a chost. Mae'r mesurau hyn y rhannau pwysig o'n dull cyffredinol i sicrhau bod system gyllido llywodraeth leol yn bodloni gofynion y dyfodol.

Diwygiadau tymor canolig

33. Mae'r cam hwn yn cynnwys y newidiadau posibl er mwyn cyflawni ein nodau a'n hymrwymadau, a fyddai'n cynnwys ystyriaethau manylach dros gyfnod hirach, a gallai ofyn am ddarpariaeth ddeddfwriaethol newydd. Mae'n bosibl y bydd goblygiadau newidiadau o'r fath yn ymestyn dros fwy nag un tymor Cynulliad.

Prisio eiddo y dreth gyngor

34. Mae system drethi effeithiol yn galw am ddull cadarn a chyson o asesu'r nwydd trethadwy. Mewn cynlluniau treth eiddo, caiff gwerth eiddo ei ddefnyddio fel dangosydd ar gyfer galw perthnasol ar gyfer gwasanaethau a'r gallu i gyfrannu at gost gwasanaethau lleol. Caiff eiddo sy'n agored i dalu'r dreth gyngor ei osod yn un o naw band y dreth gyngor yn seiliedig ar werth eiddo a asesir gan yr Asiantaeth y Swyddfa Brisió annibynnol. Diben hyn yw caniatáu system lle gall y gwahanol fandiau ddenu rhwymedigaethau trethi bach a mawr.
35. Mae'r dreth gyngor yng Nghymru yn seiliedig ar y gwerthoedd fel yr oeddent ar 1 Ebrill 2003. Ar ôl cynnal ymarfer ailbrisió er iddo ddechrau, mae Cymru mewn gwell sefyllfa na Lloegr a'r Alban, lle caiff y dreth gyngor ei chodi ar sail gwerth eiddo ym 1991. Fodd bynnag, heb gynnal ymarfer ailbrisió eiddo pellach, rydym wedi'n cyfyngu rhag gwneud newidiadau a fyddai'n helpu i wneud y system yn decach, ee ychwanegu bandiau i'w gwneud yn fwy graddoledig a moderneiddio'r trothwyon fel eu bod yn addas ar gyfer amodau'r farchnad bresennol.
36. Mae ymarferion ailbrisió eiddo at ddibenion y dreth gyngor yn gostus ac yn anodd eu cynnal. Mae ein cynllun gwaith polisi trethi yn cynnwys ffrwd waith i **edrych ar ba mor ymarferol yw dulliau modern o brisió eiddo domestig a allai sicrhau bod sylfaen y dreth gyngor yn adlewyrchu'r farchnad dai yn well.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau ystyried a allai ymarferion prisio eiddo gael eu cynnal mewn modd mwy amserol a chost-effeithiol, gan ystyried datblygiadau mewn technoleg a'r data sydd ar gael ers 2003, a allai olygu newid mwy graddol yn hytrach na gwneud popeth ar unwaith. Byddwn yn comisiynu ymchwil manwl am y posibiladau yn y maes hwn yn fuan.

Mynd i'r afael â thwyll ac osgoi ardrethi annomestig

37. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i helpu awdurdodau fynd i'r afael ag achosion o dwyll ac osgoi ardrethi annomestig. Er mai nifer bach o'r rheini sy'n talu ardrethi sy'n twyllo ac yn osgoi talu, pan nad ydynt yn cyfrannu'n deg,

gwasanaethau lleol, y gymuned ehangach a'r rheini sy'n talu ardrethi eraill sy'n dioddef. Mae sicrhau bod yr ardrethi cywir yn cael eu talu hefyd yn rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i'r rheini sy'n talu ardrethi drwy leihau'r posibilrwydd o rwymedigaethau wedi'u hôl-ddyddio.

38. Mae angen ymchwilio ymhellach i faint o bobl sy'n osgoi talu trethi yng Nghymru, boed hynny'n fwriadol neu'n anfwriadol Ym mis Gorffennaf 2015, adroddodd Llywodraeth y DU ganfyddiadau o ymgynghoriad oedd yn ceisio casglu gwybodaeth am osgoi talu ardrethi annomestig yn Lloegr. Amcangyfrifwyd y gellid colli gwerth £230 miliwn mewn refeniw ardrethi mewn achosion o dwyll neu osgoi talu trethi bob blwyddyn.
39. Yn ddiweddar, cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfarfod cyntaf gweithgor o randdeiliaid llywodraeth leol er mwyn rhannu profiadau am achosion o osgoi talu treth ac edrych ar beth sy'n ein rhwystro rhag ymchwilio iddo. Ni ellir datblygu mesurau i fynd i'r afael ag achosion o osgoi talu trethi heb gyfraniad a chefnogaeth y gymuned fusnes, y mae mwyafrif o'i haelodau yn talu'r ardrethi sy'n ddyledus. Byddwn yn ymgysylltu â chynrychiolwyr busnes i'n helpu i benderfynu ar ddulliau a'u profi. Mae'r mesurau hyn rydym yn ymchwilio iddynt yn cynnwys:
- gwella cywirdeb yr wybodaeth am y rheini sy'n talu ardrethi fel bod cymhwysedd ar gyfer rhyddhad ac eithriadau yn ddilys ac yn ymateb i newidiadau i amgylchiadau'r rheini sy'n talu ardrethi;
 - sut y gallwn weithio gydag asiantaethau eraill a Llywodraeth y DU mewn perthynas â pholisi nad yw wedi'i ddatganoli i Weinidogion Cymru, er enghraifft, statws elusennol, cofrestru busnes a thrwyddedu;
 - ceisio darpariaethau deddfwriaethol newydd i alluogi awdurdodau i gael mynediad i eiddo a'u harchwilio ac i wneud cais am fathau penodol o wybodaeth gan y rheini sy'n talu ardrethi;
 - dulliau gwell ar gyfer monitro lefelau o dwyll ac osgoi ardrethu er mwyn gwerthuso p'un a fyddai mesurau newydd yn cael yr effaith ddymunol;
 - gan ystyried y pwysau parhau ar adnoddau, p'un a oes ffyrdd o annog ac ysgogi gweithgarwch archwilio mewn modd priodol.

Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach – ar ôl 2018

40. Ar hyn o bryd rydym yn ymgynghori ar syniadau am ddiwygiadau i'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach y tu hwnt i 2018, gan gynnwys cynigion a fyddai'n gofyn am bwerau deddfwriaethol sylfaenol newydd neu gyfnod arwain hirach, er mwyn casglu gwybodaeth am eu heffeithiolrwydd. Mae'r syniadau hynny'n cynnwys:
- cyflwyno amser cyfyngedig ar ryddhad lle caiff cymorth ei dynnu'n ôl yn raddol er mwyn sicrhau bod busnesau sy'n tyfu yn dod yn hunangynhaliol;
 - targedu busnesau sy'n cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn *Ffyniant i Bawb* ac sydd o fudd cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol i Gymru. Gallai enghreifftiau gynnwys busnesau sy'n talu Cyflog Byw y Living Wage Foundation, sy'n hyrwyddo datblygiad cymunedol neu sy'n cefnogi datgarboneiddio.
41. Byddai'r cynigion yn amodol ar ymgynghoriad.

Trefniadau cyllido sy'n galluogi diwygiadau o fewn llywodraeth leol a thrawsnewid gwasanaethau

42. Yn *Symud Cymru Ymlaen*, ymrwymwyd i **adolygu system gyllido llywodraeth leol i helpu cynghorau i fod yn fwy cynaliadwy a hunangynhaliol**. Mae'r cynigion ar gyfer diwygio llywodraeth leol a'r gwaith i ddatblygu gweithgarwch o ran bargeinion dinesig a thwf yn cyfrannu at dwf economaidd, cadernid ariannol a gwasanaethau gwell. Mae gan y cynigion diwygio elfen ariannol gref. Drwy ddeddfwriaeth newydd, ein bwriad yw rhoi mandad ar awdurdodau lleol i gyfuno eu pwerau gwario a buddsoddi ar lefel ranbarthol i gynyddu capasiti, cadernid a hyblygrwydd mewn rhai meysydd gwasanaeth. Byddwn hefyd yn rhoi Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol i llywodraeth leol, ac rydym yn agored i'r syniad o edrych ar p'un a allai mwy o hyblygrwydd ariannol gynorthwyo awdurdodau lleol i ddefnyddio'r pŵer hwn. Er nad ydym yn bwriadu newid y ffordd y caiff trethi lleol eu codi a'u gwario yn lleol, gallai tueddiadau yn ymddygiadau gwario awdurdodau yn y dyfodol olygu goblygiadau ar gyfer y cydbwysedd rhwng cyllid a gofynion trethi.
43. O ganlyniad i'r bargeinion dinesig a thwf sy'n cael eu datblygu, mae'r Comisiwn Annibynnol ar Gyllid Llywodraeth Leol Cymru a rhai awdurdodau lleol wedi galw am ddefnyddio ffordd wahanol o ddosbarthu refeniw ardrethi annomestig. Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng awdurdodau o ran swm y refeniw sy'n cael ei greu o eiddo annomestig a gallu awdurdodau i hyrwyddo twf. Ar hyn o bryd, caiff ardrethi annomestig eu llywodraethu o fewn fframwaith cenedlaethol. Caiff yr holl refeniw a godir yng Nghymru ei gronni'n

ganolog a'i ddosbarthu i awdurdodau lleol fel rhan o'r setliadau blynyddol. Credwn fod hyn yn ffordd deg o weithio lle bo Llywodraeth Cymru yn rheoli'r risgiau ac yn cynnal ein traddodiadau cryf o ran gwasanaethau cyhoeddus sef cydweithrediad a chydaddoldeb er budd Cymru gyfan. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn glir nad yw o blaid sefyllfa lle byddai pob ardal yn cael cadw'r holl ardrethi annomestig y mae'n eu casglu. Dim ond nifer bach o awdurdodau a fyddai'n elwa yn sgil y dull hwn, a byddai'n arwain at doriadau sylweddol i gyllidebau'r mwyafrif ohonynt.

44. Rydym yn gweithio gyda'r sector i bwysu a mesur rhinweddau a dichonoldeb trefniant 'cyfran o'r elw' a allai o bosibl ganiatáu i awdurdodau sy'n gweithio'n rhanbarthol gadw cyfran o'r ardrethi ychwanegol a gynhyrchir. Byddai hynny'n digwydd lle ceir twf ariannol mesuradwy, y tu hwnt i'r lefelau arferol, o ganlyniad i'r cydweithio rhyngddynt. Mae'r gwaith o ymchwilio i hyn gydag awdurdodau yn y camau cynnar. Rydym wedi gwahodd awdurdodau lleol i baratoi cynnig i ni ei ystyried sy'n addas i bob rhanbarth, gan sicrhau bod risgiau ac elfennau cyfnewidiol y ffrwd gyllido yn cael eu rheoli.

Edrych ar ddiwygiadau mwy sylfaenol ar gyfer y tymor hwy

45. Mae nifer o adolygiadau eang wedi'u cynnal i sut y dylai llywodraeth leol gael ei hariannu. Mae'r cam hwn yn cynnwys edrych mewn modd cymhwysol ac ymarferol ar y gwahanol ddulliau o ymdrin â chyllid llywodraeth leol. Gallai'r rhain gynnwys cysyniadau megis newid cydbwysedd cyllid rhwng beth a gaiff ei godi'n lleol, a hwnnw a ddarperir yn ganolog, lleoleiddio agweddau ar y system yn fwy a ffyrdd gwahanol o godi refeniw trethi lleol drwy wahanol gynlluniau trethi.
46. Mae ein cynllun gwaith polisi trethi yn cynnwys ffrwd waith i **edrych ar p'un a fyddai ffyrdd gwahanol o drethu eiddo annomestig, megis trethiant ar werth tir, yn dod â manteision i Gymru.** Mae sylfaen o dystiolaeth ddamcaniaethol yn awgrymu y gallai dulliau eraill o godi incwm o eiddo fod yn fwy effeithlon yn economaidd ac yn fwy graddoledig. Mae nifer o wledydd eraill wedi arbrofi â gwahanol fathau o drethi yn seiliedig ar ryw fesur o werth tir neu'r cysyniad o drethi lleol ar incwm. Mae goblygiadau gweinyddol cynlluniau trethi o'r fath wedi atal cynnydd yn y maes hwn yn y gorffennol. Byddwn yn dechrau drwy edrych ar ba mor ymarferol yw defnyddio treth gwerth tir yn lle codi refeniw o eiddo annomestig.
47. Mae'r cynllun gwaith polisi trethi hefyd yn cynnwys ffrwd waith i **weld a allai gwahanol ddulliau o drethu ar lefel ddomestig arwain at fwy o degwch a thryloywder yn y tymor hwy.** Roedd y Comisiwn Annibynnol ar Gyllid Llywodraeth Leol Cymru wedi argymhell y dylid penderfyniadau am y dreth gyngor gael eu gwneud yn lleol gan grwpiau rhanbarthol o awdurdodau, er

enghraifft penderfyniadau am fandiau treth, gostyngiadau ac eithriadau. Ceir cyfle hefyd i edrych ar ba mor ymarferol yw cael treth incwm leol, ond byddai hyn yn gofyn am allu mesur incwm aelwydydd yn fanylwch. Byddai hyn yn cynrychioli dull gwahanol iawn o godi refeniw yn lleol a byddai'n codi nifer o faterion sylfaenol. Mae hyn yn gysylltiedig â ffrwd waith yn y cynllun gwaith polisi trethi yr ystyrir ei fod yn taro'r cydbwysedd iawn rhwng trethi eiddo ac incwm yng Nghymru ar lefel ehangach.

48. Ceir cyfoeth o ddogfennau sy'n edrych ar y cydbwysedd cyllid rhwng gwahanol ffynonellau incwm ar gyfer llywodraethau lleol ar draws y byd. Daeth Bennett, Allen a Grace (2016)⁶ i'r casgliad bod systemau cyllid ar gyfer llywodraeth leol yn adlewyrchu pa mor gymhleth ydyw, a bod angen i waith diwygio effeithiol ymateb i'r rhyngddibyniaethau a'r berthynas rhwng ffurf, swyddogaeth a chyllid, ac felly defnyddio dull system gyfan. Ystyriwyd yr asesiad a gynhaliwyd gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2014 lle nodwyd pedwar dimensiwn o gymhlethdod mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru:
- y rhyngberthnasoedd ffurfiol, llinellau adrodd ac atebolrwyddau rhwng cyrff cyhoeddus (cymhlethdod perthynas);
 - ffiniau daearyddol cyrff cyhoeddus ac i ba raddau y maent yn cydffinio (cymhlethdod gofodol);
 - cyfrifoldebau unigol cyrff cyhoeddus, ac agweddau arnynt sy'n gorgyffwrdd ac yn dyblygu (cymhlethdod gweithredol);
 - trefniadau ar gyfer gweithio ar draws ffiniau sefydliadol drwy bartneriaethau (cymhlethdod cydweithredol).
49. Wrth i'r gwaith o ddiwygio llywodraeth leol gyflymu yn ystod y tymor hwn ac yn y dyfodol, mae'n iawn ein bod y parhau i ystyried beth yw'r cydbwysedd priodol rhwng ysgogiadau cyllidol er mwyn cefnogi'r sector. Mae adolygu'r cydbwysedd cyllid yn gysylltiedig ar lefel sylfaenol â chwestiynau am lywodraethiant ac atebolrwydd ehangach. Yn yr un modd, ni ellir ateb cwestiynau am drethiant lleol heb ystyried trethiant cenedlaethol, gan na all unrhyw dreth unigol gynnwys yr holl briodweddau neu amcanion delfrydol (Bennett, Allen a Grace, 2016).

⁶ Systems of Local Government Finance, Local Taxation and Resource Allocation. (Bennett, Allen a Grace, 2016). <http://gov.wales/statistics-and-research/evidence-review-systems-local-government-finance-local-taxation-resources-allocation/?skip=1&lang=cy>

50. Drwy ein grwpiau ymgynghori, ein bwriad yw asesu'r posibilïadau ar gyfer Cymru. Byddai graddfa'r newid yn golygu bod angen darpariaeth ddeddfwriaethol newydd sylweddol, a phe byddai gwahanol ddulliau yn profi'n hyfyw, ni fyddai'n ymarferol eu rhoi ar waith yn ystod tymor presennol y Cynulliad. Y bwriad yw edrych ar yr opsiynau ac asesu'r goblygiadau ymarferol fel bod modd cyflwyno nifer o sefyllfaoedd sydd wedi'u profi er mwyn llywio'r drafodaeth cyn etholiadau nesaf y Cynulliad a thu hwnt i hynny.